# 204 - Gardd Gymunedol Cae Crwn a’r Gallu i Gynnull: Cyngor Tref Criccieth

Helo, this episode will be in Welsh. If your Welsh isn't up to following along then we are completely fine with you skipping to the next one.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Helo a chroeso i'r gyfnewidfa, podlediad wedi'i gynhyrchu gan Archwilio Cymru.

Siôn Owen ydw i a dwi'n gweithio i'r Gyfnewidfa Arfer Da.

Y tro yma fu i ni fynd i Griccieth gan ymweld â gardd gymunedol Cae Crwn, gan ddysgu mwy am yr ardd a’i chymuned, yn ogystal â'r ffordd mae'r Cyngor Tref wedi gweithredu i gynull pobl y sefydliadau er mwyn hwyluso'r datblygiad yr adnodd gymunedol yma.

Dwi yma yn y pafiliwn yng Nghae Crwn yng Ngriccieth i siarad hefo pobl o'r Cyngor Tref am y project yma sy wedi creu gardd gymunedol a gofod natur arbennig iawn, yn enwedig pan ma'r haul allan yma'n Nghricieth.

Fysach chi'n fysach chi gystal â cyflwyno chi nawr os gwelwch yn dda?

**Catrin Jones (Clerc Cyngor Tref Criccieth)**

Catrin Jones ydw i, Clerc Cyngor Tre Cricieth.

**Angela Jones (Cynghorydd, Cyngor Tref Criccieth)**

Angela Jones ydw i. Dwi'n cynghorydd ar y Cyngor Tre. Dwi hefo rhandir yma a dwi'n eistedd ar y pwyllgor yn Cae Crwn yma hefyd.

**David Cassels (Gwirfoddolwr Cae Crwn)**

David Cassels, dwi'n gwirfoddolwr am y project yma. A founder member.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Iawn, wedyn fyswn i'n dechra tasech chi'n disgrifio'r project.

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ma' project Cae Crwn yn broject cymunedol uchelgeisiol. Mae'n dod â rhandiroedd cymunedol, gardd natur a gardd glöynnod byw i gyd gyda'i gilydd ar safle braf yng nghanol Cricieth. Wnaeth y cyngor tre ddatblygu'r y project yma mewn partneriaeth gyda Ffrindiau Gardd Natur, Ysgol Gynradd Treferthyr a Chyngor Gwynedd a gaethon ni grant sylweddol i gychwyn y prosiect gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri. Nôl yn 2021 wnaeth y prosiect gychwyn a mae'n rhyfeddol a gweud y gwir beth sydd wedi gallu cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod hynny.

A be sy'n bwysig iawn am y prosiect fi'n meddwl yw bod e wedi dod o ddymuniad y gymuned i gael y datblygiad yma. Roedd y Cyngor Tre yn gwely'n bwysig iawn bod ni'n cael cynllun cymunedol a wnaethon ni ddatblygu'r cynllun gwreiddiol sawl blwyddyn yn ôl mewn ymgynghoriad gyda'r gymuned a oedd e'n bendant beth oedd pobl isie gweld, oedd lle gwyrdd, hygyrch a byddai'n atyniadol.

Hefyd bydde'n gwella bioamrywiaeth yn cynnig cyfleoedd i bobol bob oed fedru fwynhau.

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ti'mod ma'n pwysig i ddeud ella hefyd wrth profi Covid a y cymuned yn mynd trwy profiad ofnadwy yna odd pawb yn teimlo odd o'n rili bwysig i ca'l rhywle i dod â pobol o pob cenhedlaeth at ei gilydd.

A lle sa ti'n gallu mynd ar ben dy hun hefyd yn amlwg, os odd os oddach chi angen hunan-ynysu o rywun arall, oddach chi'n dal yn gellu kind of dod a gweithio yn y rhandir hefyd.

So dwi'n meddwl odd Covid yn reit allweddol i symud y syniad ymlaen doedd?

Felly, ie.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ie, achos Covid sbardunodd y project yn lle cynta?

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Nathon ni neud cais am yr arian yn 2020 a nath y tri ohonon ni weithio ar y cais a wedyn bod yn llwyddiannus a cychwyn y project yn mis Ionawr dwy fil dau ddeg un a fel ma' Angela yn gweud timod ma' oedd pobl wedi gwerthfawrogi beth oedd gallu bod allan oedd e'n un o'r pethe positif daeth allan o Covid a gweud y gwir bod pobl yn gwerthfawrogi o ie ma' fe'n braf gallu cael ardal oedd braf i fynd allan i fwynhau a cerdded cymdeithasu yn saff a gweud y gwir.

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ie, a yn ogystal â tyfu llysie a blode yn amlwg, dyn ni'n gweld lot o pobol yn ymweld â cae crwn hefyd yndydan Dave?

Ma' pobol yn cerdded drwyddo, ma' lot fawr o bobol yn stopio ca'l sgwrs gyda ni os dyn ni'n gweithio ar y ar y gerddi ymwelwyr hyd yn oed i'r ardal, mae nw'n aros yma yn y gwesty mawr ne' ma' na llefydd wahanol i aros. Ma' lot o pobl, dwi'n meddwl, yn cael eu eu annog i dod yma jyst i weld beth sy'n digwydd yn y dre.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ie, so bod hi'n troi'n atyniad. Iawn, so dach chi di cyffwrdd ar hyn yn barod efo bod o wedi dod o'r cymuned, wedi dod yn ystod Covid, ond hynny yw sut aethoch chi ati i ddod a'r holl beth at ei gilydd a ballu?

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Wel oedd gyda ni criw o'r enw Ffrindiau Gardd Natur sy yn y grŵp cyfansoddiadol yn gweithio ar yr ardd natur oedd gyda ni yn Crigiaeth yn barod, a ma' na gor-gyffwrdd hefyd gyda grŵp Criccieth yn ei Blodau. Felly ma' na hanes hir o edrych

ar ôl ein mannau gwyrdd ni a yn y dre felly ma' ‘di deillio rili o'r bartneriaeth tibod bod y cyngor tre yn hybu hyn yn swyddogol ond wrth gwrs bod gyda ni criw o bobl yn barod oedd ar gael i gefnogi'r cynllun a ma' gyda ni ryw pumdeg o bobl yn helpu ar y rhandiroedd cymunedol, rywbeth fel hynny.

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ie Dave, ie faint o pobl sydd yma?

**David Cassells (Cae Crwn)**

Na ar hyn o bryd mae yna 35 yn aelod yn y rhandiroedd a cynta ma' roedd yna o 20, a mae 'na lot o bobl rŵan a dwi angen mwy. Felly mae o wedi tyfu ond mae yna le i dyfu eto.

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ma' na lle i fwy o pobol, dan ni angen mwy o bobol ia?

**David Cassells (Cae Crwn)**

Ia i rhandir, ia.

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

A ma' gyda ni amrediad o bobol sydd' â rhandirodd yma, ma' na lot o deuluodd ifanc yn y flwyddyn diwetha’ gyda plant bach yn rhandir ar y safle a un o'r syniade ar gyfer y dyfodol o ganlyniad i hynny yw creu ardal fach i blant yn un o'r rhandiroedd, felly ma' hwnna'n syniad da .

**David Cassells (Cae Crwn)**

Ie, mae gynnon ni chwech mae ella 8 teulu efo plant ifanc ar hyn o bryd felly mae'n da iawn i ni, Ie.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Achos ’di Criccieth ddim y dref fwya dan haul nacdi, ond mi fydd yna rei rhan o Griccieth efo gerddi mwy na'i gilydd a ballu, a ma'n beth braf bod y gofod ma' ar ga'l i bobol a gofod fel dach chi newydd gweld sy jyst o dan yr rheilffordd.

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ie dyn ni'n cael lot o sylw gyda trêns yn mynd heibio lot o pobol yn codi llaw pan dyn ni'n gweithio yn y gerddi, ie.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

O ran sut ddaethoch chi ati wedyn, be di be di rôl y Cyngor Tre wedi bod yn y prosiect yn ei gyfanrwydd wedyn?

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ma' ni sy gyda'r les am y tir o Gyngor Gwynedd a wedyn wrth gwrs ma' na ambell i gynghorydd yn gweithio ar y rhandiroedd ond o ran reolaeth ffrindiau gardd natur, sy'n rhedeg y prosiect ar rhan y Cyngor Tre. Ma' gyda ni gytundeb ffurfiol wedyn sy'n nodi beth y'n ni'n disgwyl o ran y drefn a bod nhw'n atebol i'r Cyngor Tre a bod yna gydweithio clir rhwng y ddau gorff felly.

Ie ma' ma' hwnna'n arfer da fi'n credu o ran bod gyda ni gytundeb ffurfiol a wedyn ma'r rhandirodd ar gael am ddim i bobl sy'n ymroi i'r safle a wedyn ma' gyda ni bolisi yswiriant sy ar gyfer pawb sy'n cymeryd rhan ma'r polisi yswiriant y Cyngor Tre.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Wedyn ‘da chi fel Cyngor Tref ‘di medru cymryd rôl hwyluso a bod yn hwyluso, tynnu pobl at ei gilydd ac a galluogi y grŵp cymunedol wedyn i fynd a wneud a wneud y gwaith, lly?

Felly, i fynd o fan'na, pa wahaniaeth dach chi wedi weld wedyn o fod yn cyflawn i hyn?

Gwahaniaeth yn  y bobl, gwahaniaeth yn Criccieth sy'n deillio o'r prosiect yma?

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

O, dwi'n meddwl bod y rhandiroedd wedi wneud gwahaniaeth mawr i'r cymuned. Ma'r rhan fwyaf o bobol sy'n byw yma yn gwbo bo' nw yma. Ma' nhw bendant yn dod am dro gyda'r nos ne' yn ystod y dydd ac yn dod i weld be' sy'n yn mynd ymlaen yma. Mae nw'n agored i bawb.

A dwi'n meddwl bod o 'di neud gwahaniaeth mawr i llesiant pobol. Pobol wedi dod i nabod ei gilydd ella. Do'dd ddim yn nabod ei gilydd o flaen. Mae o'n lle cymdeithasol iawn. Ma' pawb yn rhannu syniade, sut i tyfu pethe ne' beth sy'n gweithio beth sy ddim. So dwi'n meddwl ar rhan llesiant y dre mae di bod yn pwysig ofnadwy ond achos ma' gynnyn ni aelode' anhygoel fel David a Jackie, ma' syniade newydd sydd yn dod i fewn yn anhygoel hefyd

'Dyn ni di treialu tyfu lot o pethe newydd, ma' gynnyn ni cwt ar gyfer madarch am y tro cynta sydd di bod yn llwyddiannus iawn, ma' gennon ni wenyn hefyd. Cadw gwenyn yn lleol  hefyd. Ma' na mêl ar ga'l ŵan does am y tro cynta felly ar rhan gwellianne i'r bioamrywiaeth yr ardal ma' di neud gymaint o wahaniaeth hefyd.

**David Cassells (Cae Crwn)**

Ie mae 'na lot o petha yn digwydd ers dan ni'n dechrau y project hefyd mi gynnon ni y gwenyn ac y madalch ac ati, ie.

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

A wedyn falle o ran creadigrwydd a diwylliant, ma' gyda ni fyrddau dehongli wedi'i haddurno gan un o'r cynghorwyr, Cyngor Tre', y cynghorydd Ffion Gwyn, yn artist, a hefyd, ni di cynnal digwyddiadau fel plannu rhosod John Ystumllyn, y garddwr du, ddaeth i fyw yn yr ardal yn ddeunawfed ganrif.

Wedyn llynedd, yn 2025, wnaethon ni ddadorchuddio cerflun heddwch, Sri Chinnoy, a ma' hwnna wedi dod ac uno natur, treftadaeth a diwylliant lleol a ma'r Cyngor Tref hefyd wedi cytuno i fod yn llysgennad heddwch a hinsawdd a wedyn

ma' fe wedi dod gyda'r cerflun a yn yr ardal hyfryd ma' fe wedi dod â hwnna i gyd gyda'i gilydd.

O safbwynt cydnabyddiaeth wedyn, yn 2024, wnaethon ni ennill gwobr rheolaeth cymunedol a'r dir cymunedol CLAS, a yn deillio o hynny wedyn, ma' na gynllun gwydnwch safle wedi'i sefydlu gan ffermydd a gerddi cymdeithasol, a ma' na ffeithlun sy'n dangos sut mae'n gwaith ni'n cefnogi deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Wnaeth hyn arwain at gynnwys Cae Crwn mewn ffilm rhyngwladol o'r enw The Power of Local sy'n tynnu sylw at dri deg o brojectau ar draws pum gyfandir sy'n gweithio tuag at economïau lleol, iach a chymunedau gwydn a mae'r ffilm wrthi'n cael ei chyfieithu i sawl iaith, felly ma' di bod yn rhyfeddol a gweud y gwir beth sydd wedi bod yn gynnydd gyda gwaith caled bobl a gweledigaeth a gweud y gwir i trawsnewid y safle.

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Dwi'n cael lot o bobol yn dod i ymweld a gofyn sut mae'r lle di cael ei sefydlu ac i dysgu am yr arfer da yn leol ac o bell hefyd felly ie.

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

A ni hefyd wedi ca'l cydnabyddiaeth gwobre Un Llais Cymru am y safle so felly ni'n ddigon hapus. Dim bo' ni'n neud e o ran ca'l y gwobre, ond mae'n neis cael y cydnabyddiaeth.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Yndi, mae'r gwaith yn mynd i ddigwydd beth bynnag, ond mae'r cydnabyddiaeth yn neis ia? Ac o fanna, be ydy'r dyfodol ta?

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

O, drosodd i Dave, a ma' ma' Dave a Jackie efo syniadau pob pum munud, so ia.

Jackie yn enwedig, mae hi'n gweld rywbeth yn ddigwydd tydi, a wedyn mae'n dod â fo i'r pwyllgor. A gofyn am cefnogaeth a wedyn, ie, dan ni yn tueddu i symud ymlaen efo syniadau Jackie achos ma' hi yn wych.

**David Cassells (Cae Crwn)**

Ie. Mae gynnon ni llawer o syniadau ond dwi ddim yn cael y space ar hyn o bryd i expand-io. So, ie, achos ma' gynna i lot o syniad.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ma' gynnoch chi'r darnau rhandiroedd felly, ond ma' gynnoch chi ardd wyllt tu allan i'r ffens a wedyn yn does?

**David Cassells (Cae Crwn)**

Wth gwrs, ie, ie.

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ac 'rydyn ni newydd gael y newyddion cyffrous hefyd bod yr Royal Horticultural Society a ffermydd a gerddi cymdeithasol, maen nhw'n bwriadu buddsoddi tri pwynt wyth miliwn i ddatblygu mudiadau garddio cymunedol, a ma' hwnna ar draws y Deyrnas Unedig, yn anffodus ddim yn dod i yn uniongyrchol i Cae Crwn, oedd hyn yn grant gronfa gweithredu hinsawdd, y gronfa loteri genedlaethol.

Ond oedd Cae Crwn yn rhan o'r cais, fel esiampl, o arfer da, a mae'n bosib oherwydd hynny, bydd cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd gyda prosiectau eraill, a falle ymweliadau gan brosiectau eraill i ddod i Cae Crwn, a falle hyrwyddwyr, yn cynnwys Senedd Cymru.

Felly ma' hwnna'n datblygiad newydd cyffrous i fod yn rhan ohono fe Yndi.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Dach chi'n trio bod yn mor gynaladwy â fedrwch chi wrth wneud hyn dydach?

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ia, ia, dyna'r bwriad.

Ia, a ma' hwn yn pwysig i ddeud achos rywbeth dan ni'n tyfu dan ni'n rhannu hefyd efo'n gilydd, ac os dan ni di gor-dyfu fel dach chi yn y haf, mae yna lot o un fath o peth yn dod at ei gilydd, dan ni'n rhannu nhw hefyd.

Mae gennyn ni bwrdd lle ma' pobl yn gallu cymryd pethe a jyst gadael fel honesty box a gadael bach o pres os maen nhw isio ma' na dipyn o pres yn dod i fewn yn y bocs yna, does?

**David Cassells (Cae Crwn)**

Ia pum deg punt eleni ar hyn o bryd ia yn y honesty box.

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ia, ac amser Dolig mae rhai o'r aelodau wedi mynd a perlysie felly, o gwmpas y siops yn Criccieth a rhoid nhw am ddim i bobol hefyd.

Felly, ie, ma' na dipyn o ie, dan ni'n trio bod mor gynaliadwy â phosib, a dan ni gyd yn rhannu hade a rhannu pethe dan ni di tyfu os dan ni di gor-tyfu a pethe ac yn seedlings ac yn blaen hefyd, felly ie.

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Falle dylen ni hefyd weud yn ogystal â grantiau cenedlaethol fel y loteri ma' Partneriaeth Natur Gwynedd, y Cyngor Gwynedd, yn dda iawn a mae o wedi golygu bod ni wedi gallu datblygu llwybrau gwell hygyrch pob math o ddatblygiadau ni wedi wneud oherwydd y partneriaeth Gardd Natur yn ystod y blynyddoedd diwetha, a ma'r swyddog yn dod i ymweld a ma' dan ni berthynas dda a ni'n ddiolchgar iawn am yr grantiau ychwanegol yma.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

'Dach chi'n elwa o fod yn medru cydweithio, a gwahanol grwpiau efo'i gilydd yn effeithiol felly dydach?

**Angela Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ie, gwersi a rhannu arfer da, fel dan ni di roid system i dal dŵr glaw ŵan i fewn a profi sut ma' hwn yn gweithio, ma' hwnnw wedi dod trwy Cyngor Gwynedd y Partneriaeth Natur, so felly ma' pawb yn defnyddio'r dŵr yna. A ma' gynnon ni system compostio hefyd wrth gwrs, ma' gynnon ni bin poeth hefyd yn pobol yn gallu dod a gwastraff bwyd nw lawr so ie t'bod mae o'n addysgu pobol hefyd am ie sut i ddefnyddio pethe tydi ail ddefnyddio pethe felly ie.

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Ie a ni wedi ca'l newyddion ITV Cymru yma dwywaith i edrych ar y system dŵr de.

Un arall yw gyda plant yr ysgol yn dod i blannu y coed a pethe felly ni'n ca'l sylw a cydnabyddiaeth o o'r ymarferion yma.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ia, oes gynnoch chi gysylltiad cryf efo'r ysgol?

**Catrin Jones (Cyngor Tref Criccieth)**

Oes, oes.

A wedyn ma' na ysgolion eraill yn dod hefyd o'r ardaloedd o gwmpas, falle fydd nhw'n dod ar y trên y a dod am ddiwrnod bach allan i Cae Crwn. Mae'n braf gweld y plant dydy a fi'n credu bod os y'n ni'n cynnwys plant a pobl ifanc, ma' fe'n rhoi perchnogaeth, mae mae'n rhan o'u bywyd nhw a pan maen nhw'n yn dod tibod i'r arddegau wedyn, mae'n perthyn iddyn nhw a ma' hwnna'n bwysig a

dysgu am y cydweithio. Ma'r pobl hŷn yn hoffi gweld y plant yn rhoid egni i'r berthynas hynna wedyn.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**

Ia, felly, diolch yn fawr iawn i chi.

Gynna ni gyngor tre sy'n defnyddio ei rym i ddod â pobl at ei gilydd a sefydliadau at eu gilydd i greu gofod bach anhygoel, a digwydd bod yn cyflawni y dyletswyddau be am rywbeth tra ma' nhw wrthi.

A ma' pawb yn hapus.

Diolch yn fawr iawn i chi am rannu'r stori efo ni.

**Rhian Jones (Archwilio Cymru)**

Diolch am wrando ar y bennod hon o bodlediad Y Gyfnewidfa.

Os wnewch chi fwynhau'r bennod, cofiwch danysgrifio trwy'ch darpar o'r podlediadau i ddal pennodau'r dyfodol.

Byddai adolygiad cyflym a rhannu gyda'ch ffrindiau neu'ch cydweithwyr yn golygu llawer ynni.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar nodiadau'r bennod, mae'r holl ddylenni a manylion cyswllt yno.

Gallwch hefyd fynd draw i'n gwefan archwilio dot Cymru os oes gennych gwestiynau neu sylwadau, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.